GWNEUD PETHAU'N IAWN!

Codi Ymwybyddiaeth o'r CCUHP a'i Hybu

Gweithdy 4

Rhieni, Gofalwyr ac Oedolion Ifanc 19-25

Cynulleidfa Darged	Rhieni, Gofalwyr ac Oedolion Ifanc 19-25
Hyd	1 awr ar y mwyaf
Nodau	1. Codi a datblygu ymwybyddiaeth o hawliau plant a phobl ifanc fel y'u hamlinellwyd yn yr CCUHP. 2. Eu galluogi i hybu a datblygu hyder y plant a'r bobl ifanc yn eu gofal yn effeithiol er mwyn iddyn nhw sicrhau eu hawliau o dan bob amgylchiad a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.
Y Deilliannau a Ragwelir	• Datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r CCUHP. • Cael trosolwg ar gyd-destun polisi hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru. • Cydnabod manteision galluogi plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau fel y'u hamlinellwyd yn yr CCUHP a chydnabod y rhwystrau sy'n eu hatal. • Nodi'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn cadw'r momentwm, datblygu a helpu plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau fel y'u hamlinellwyd yn yr CCUHP.
Adnoddau Gweledol	• Mae'r holl ffotograffau a chopïau o Erthyglau 1-42 o'r CCUHP ar gael yn y blygell o Adnoddau Gweledol sy'n cyd-fynd â'r gweithdai hyn.

ESF
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Cymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

Adnoddau'r Gweithdai

Er mwyn sicrhau neges gyson am yr CCUHP a hawliau plant a phobl ifanc ac er mwyn helpu i gyflwyno pob gweithdy, mae'r canlynol ar gael:

1. Yr CCUHP – yn blaen: papur cefndir
2. Plygell o Adnoddau'r Gweithdai sy'n cynnwys ffotograffau enghreifftiol a'r rhestr o Erthyglau'r CCUHP

Gwefannau Gwerth Eu Gweld – mae'r pecyn cymorth hefyd yn cynnwys rhestr o wefannau sy'n cynnig cysylltiadau ymlaen i wefannau eraill ac amrywiaeth o adnoddau sydd wedi ennill eu plwyf a'r rheiny wedi'u datblygu"n unswydd i roi hwb i ddefnyddio'r CCUHP.

Adnoddau a Argymhellir – mae pobl sy'n gweithio ledled Cymru ym maes Addysg Hawliau wedi cynnig eu rhestr nhw o argymhellion ar gyfer adnoddau sydd wedi ennill eu plwyf ar gyfer unrhyw waith ategol neu ddilynol.

Cynnwys	Gweithgarwch
Cyflwyno	1. Cyflwyno – yr hwylusydd ac aelodau'r gweithdy. 2. Gweithgarwch dewisol i dorri'r garw – Pe bai hudlath gen i beth byddwn i'n dewis ei newid? 3. Trosolwg o nodau'r gweithdy • codi eu hymwybyddiaeth bersonol o'r CCUHP. • cyfleoedd i hybu perthnasedd yr CCUHP i'r plant a'r bobl ifanc yn eu gofal.
'Sut mae'n teimlo pan fydd pobl ddim yn gwrando a sut mae'n teimlo pan fydd rhywun yn gwrando ac yn rhoi sylw i'ch barn chi.'	4. Mewn parau, gofynnwch i'r aelodau ddisgrifio digwyddiad pan na wnaeth pobl wrando arnyn nhw ac adeg pan wrandawodd rhywun arnyn nhw a chymryd eu cyngor – sut roedd y ddau ddigwyddiad yn gwneud iddyn nhw deimlo? 5. Yr hwylusydd i nodi teimladau cadarnhaol a negyddol ar siart droi wrth i'r grŵp roi adborth .
Ffeindio'r ffordd o amgylch yr CCUHP – Mynegi Barn	6. Disgrifiwch yn fyr beth yw diben yr CCUHP, gan gyfeirio at Yr CCUHP – yn blaen (PC01). 7. Rhowch gynnig ar Gêm Mynegi Barn ar yr CCUHP (PC02). Dewiswch yn ofalus ddetholiad o'r gosodiadau symbylu pwrpasol yn eu cyd-destun (dim mwy na 3). Gofynnwch i'r grŵp leisio'u barn (cytuno neu anghytuno) yn gyntaf o safbwynt oedolyn ac wedyn ailystyried o safbwynt plentyn neu berson ifanc. Oes yna wahaniaeth? Gall hyn gael ei wneud drwy ofyn iddyn nhw ddangos un o'r cardiau pleidleisio y mae detholiad ohonyn nhw ar gael wedi'u labelu â (PC03). Cewch ofyn iddyn nhw symud i gornel cytuno neu gornel anghytuno yn yr ystafell, wedyn gallan nhw geisio newid barn ei gilydd a symud drosodd.

Cynnwys	Gweithgarwch
Pennu'r Pennawd neu Cystadleuaeth Capsiwn	8. Rhannwch aelodau'r gweithdy yn grwpiau bach, rhoi'r penawdau (PC04) i bob grŵp a gofyn iddyn nhw gysylltu'r penawdau ag un neu fwy o Erthyglau'r CCUHP o Yr CCUHP – yn blaen (PC01). Efallai y byddan nhw am ddychmygu'r stori y tu ôl i'r pennawd. neu 9. Rhowch un o'r ffotograffau a gafodd eu defnyddio yn y gweithdai i blant a phobl ifanc i'r grŵp (PC05) a gofynnwch iddyn nhw ei gyplysu ag un o'r Erthyglau o'r CCUHP fel uchod ac ysgrifennu eu capsiwn eu hunain i'r ffotograff. 10. Adborth gan y grwpiau ar oblygiadau'r CCUHP i'r plant a'r bobl ifanc yn eu gofal.
Y Camau Nesaf – rhoi'r gair ar led	11. Ysgrifennwch neges destun ar y ddalen bwrpasol (PC06) gan rannu "Un peth y gallaf ei wneud i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r CCUHP a'i hybu". (140 o gymeriadau). 12. Pasiwch y neges destun i'r person nesaf yn y grŵp gan adeiladu'r adborth . 13. Casglwch y negeseuon testun a'u gosod ar wefan Gwneud Pethau'n lawn www.letsgetitright.co.uk

PC02

Gêm Mynegi Barn ar yr CCUHP

"Mae angen dysgu gwers i blant drwg"

"Dylai plant a phobl ifanc gael eu gwerthu yn y farchnad ar ddydd Mawrth"

"Dylai pob plentyn/ person ifanc ddysgu am gyffuriau"

CYTUNO BAWD I FYNY WYNEB Â GWÊN

"Dylai pob plentyn a pherson ifanc sy'n byw yng Nghymru ddysgu siarad Cymraeg"

"Dylai plant gael smacen os ydyn nhw wedi gwneud rhywbeth o'i le"

ANGHYTUNO BAWD I LAWR WYNEB TRIST

"Dim ond plant da ddylai gael chwarae, fel gwobr"

"Dylai plant gael eu gweld ond nid eu clywed"

"Dylai oedolion siarad â'u plant cyn gwneud penderfyniadau pwysig"

PC03

PC03

PC04

DATE TO CELEBRATE

October 16

World Food Day

What's it all about?

An event set up in 1979 by the United Nations Food and Agriculture Organisation to make countries more aware of those suffering from starvation


"Parents are a child's first and enduring teachers. They play a crucial role in helping them learn"

HEADLINE HUNTERS

A mantra a day could help keep the bullies away...

Barres Denise

'Schoolchildren feel less stressed and happier when they come to school'

Child-led ethos is recipe for disaster

93,601

Number of 10 to 17-year-olds gaining first criminal record

PC06

Rhoi'r Gair ar Led / Nodyn Bodyn

Yn y lle isod ysgrifennwch neges destun fel rhiant neu ofalwr i rannu "Un peth y gallaf ei wneud i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r CCUHP a'i hybu". Pasiwch y daflen i'r aelod nesaf o'r grŵp i greu cyfres o negeseuon…

Neges Destun 1…

Neges Destun 2…

Neges Destun 3…

Neges Destun 4…